CIWB

**Tasg 2**

# Anifeiliaid rhyfedd

a.



b.



c.



ch.



d.



1. Darllenwch y darnau ac yna matsiwch y llun a'r disgrifiad.
Dyma eiriau i'ch helpu chi:

| Geirfa | |
|---|---|
| rhyfedd | strange |
| blew | fur |
| llygaid | eyes |
| cryf | strong |
| gwddw | neck |
| coesau | legs |
| hir | long |
| tenau | thin |
| swil | shy |
| clustiau | ears |
| trwyn | nose |
| pen ôl | backside |
| brigau | twigs |
| cynffon | tail |
| pryfed | insects |

**Anifail 1**

Mae'r anifail yma tua 60 cm ac mae o'n llwyd neu'n ddu. Mae ganddo fo dair cot o flew hir felly mae o'n hapus iawn yn y tywydd oer – dydy o ddim yn teimlo'n oer! Mae ganddo fo flew dros ei lygaid hefyd. Mae o'n dod o ogledd yr Eidal, o ardal Bergamo, ac mae o'n bwyta cig.
Mae o'n gryf ac mae o'n dda am weithio gyda defaid. Mae o'n dda iawn gyda phlant.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 2**

Mae'r anifail yma tua 150 cm ac mae o'n frown. Mae ganddo fo wddw hir iawn ac mae o'n bwyta dail o'r coed. Mae ganddo fo ben bach ond mae ganddo fo glustiau a llygaid eitha mawr. Mae ganddo fo goesau hir, tenau ac mae o'n gallu rhedeg yn gyflym. Mae o'n dod o Affrica.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 3**

Mae'r anifail yma tua 1.5 m - 2 m ac mae o'n frown. Mae o'n swil iawn. Mae ganddo fo glustiau mawr, trwyn hir a streipiau ar ei ben-ôl.
Mae o'n dod o Affrica – o'r Congo – ac mae o'n bwyta dail, brigau a ffrwythau.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 4**

Mae'r anifail yma'n fach iawn tua 9 cm - 16 cm ond mae ganddo fo gynffon hir, llygaid mawr – tua 16 mm – clustiau bach a thrwyn byr. Mae ganddo fo goesau hir iawn ac mae o'n gallu neidio o goeden i goeden. Mae o'n frown neu'n llwyd.
Mae o'n dod o Ynysoedd y Pilipinas (y *Philippines*) ac mae o'n bwyta pryfed fel arfer. Mae o'n cysgu yn y dydd ac yn chwilio am fwyd yn y nos.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 5**

Mae'r anifail yma tua 36 cm - 43 cm ac mae ganddo fo gynffon hir, 56 cm - 61 cm. Mae o'n frown neu'n llwyd neu'n ddu ac mae ganddo fo drwyn byr, clustiau mawr iawn a llygaid mawr gwyrdd. Mae o'n rholio fel pêl ac yn cysgu yn y dydd ac mae o'n chwilio am fwyd yn y nos. Mae o'n bwyta larfa, coconyt a ffrwythau fel arfer
Mae o'n dod o Madagasgar ac mae o'n byw yn y fforest law.

Pa anifail (a-d)?

2. Beth ydy’r anifeiliaid?

| | |
|---|---|
| Llun a. | |
| Llun b. | |
| Llun c. | |
| Llun ch. | |
| Llun d. | |

Mae’r atebion yn yr **Adran Atebion**.